



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 Rhif 1717 (Cy.132)

2005 No. 1717 (W.132)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

**SEA FISHERIES,
WALES**

CADWRAETH PYSGOD MÔR

CONSERVATION OF SEA FISH

**Gorchymyn Pysgota am Gregyn
Bylchog (Cymru) 2005**

**The Scallop Fishing (Wales) Order
2005**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn sydd yn gymwys o ran Cymru, yn rheoleiddio pysgota am gregyn bylchog yn "nyfroedd Cymru". Ar gyfer pwrpasau y Gorchymyn hwn diffinir "dyfroedd Cymru" fel yr ardaloedd morwrol sydd o fewn Cymru fel y diffinir gan adran 155(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

This Order, which applies in relation to Wales, regulates scallop fishing in "Welsh waters". For the purposes of the Order "Welsh waters" are defined as being those sea areas falling within "Wales" as defined by section 155(1) of the Government of Wales Act 1998.

Mae Erthygl 3 y Gorchymyn hwn yn cyfyngu ar y nifer o lusgrwydi cregyn bylchog y caiff cychod pysgota Prydeinig eu tynnu.

Article 3 of the Order limits the number of scallop dredges which British fishing boats may tow.

Mae Erthygl 4 yn pennu y cyfyngiadau ar hyd barau tynnu y gellir eu cario neu eu defnyddio gan gychod pysgota Prydeinig.

Article 4 provides restrictions as to the size of tow bars which may be used by British fishing boats.

Mae Erthygl 5 yn pennu manyleb y llusgrwydi cregyn bylchog y caniateir eu cario neu eu tynnu.

Article 5 fixes the specification of scallop dredges which may be carried or towed.

Mae Erthygl 6 yn pennu beth fydd isafswm maint y gragen fylchog y caniateir i gwch pysgota Prydeinig ei chario, a hefyd yn darparu ar gyfer tymor caeëdig mewn perthynas â physgota cregyn bylchog, sef y cyfnod sydd yn dechrau fel yn 2005 ar 30 Mehefin, ac ymhob un o'r blynyddoedd dilynol ar 1 Mehefin, gan ddod i ben ar 31 Hydref.

Article 6 fixes the minimum size of scallop which may be carried by a British fishing boat and also provides for a closed season in respect of scallop fishing, being a period commencing on the 30 June in 2005, and on 1 June in each subsequent year thereafter, and ending on the 31 October.

Mae Erthygl 7 yn darparu y dull y mae cregyn bylchog i gael eu mesur ar gyfer pwrpasau Erthygl 6.

Article 7 provides the means by which scallops are to be measured for the purposes of Article 6.

Mae Erthygl 8 yn darparu bod gan swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig bwerau penodol i fynd ar fwrdd cychod pysgota Prydeinig, i'w harchwilio a'u cadw ac i archwilio, copïo a chadw dogfennau.

Article 8 provides for British sea fishery officers to have certain powers to board, search and detain British fishing vessels and to inspect, copy and detain documents.

Mae Erthygl 9 yn dirymu Gorchymyn Cregyn Bylchog Rhy Fach eu Maint (yr Arfordir Gorllewinol) 1984, Gorchymyn Cregyn Bylchog (Môr Iwerddon) (Gwahardd Pysgota) 1984 a Gorchymyn Cregyn Bylchog (Môr Iwerddon) (Gwahardd Pysgota) (Amrywio) 1986 cyn belled â bod y Gorchmynion yma yn gymwys o ran Cymru.

Mae Arfarniad Rheoliadol wedi ei baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn a gellir ei archwilio yn swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Article 9 revokes the Undersized sScallops (West Coast) Order 1984, the Scallops (Irish Sea) (Prohibition of Fishing) Order 1984 and the Scallops (Irish Sea) (Prohibition of Fishing) (Variation) Order 1986 insofar as they apply in relation to Wales.

A regulatory appraisal has been undertaken in respect of this Order and is available for inspection at the offices of the National Assembly for Wales, Department for Environment, Planning and Countryside, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2005 Rhif 1717 (Cy.132)**2005 No. 1717 (W.132)****PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU****SEA FISHERIES,
WALES****CADWRAETH PYSGOD MÔR****CONSERVATION OF SEA FISH****Gorchymyn Pysgota am Gregyn
Bylchog (Cymru) 2005****The Scallop Fishing (Wales) Order
2005**

Wedi'i wneud 28 Mehefin 2005
Yn dod i rym 29 Mehefin 2005

Made 28 June 2005
Coming into force 29 June 2005

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 1, 3, 5, 15(3) a 20(1) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(1), ac a freiniwyd ynddo bellach(2), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by sections 1, 3, 5, 15(3) and 20(1) of the Sea Fish (Conservation) Act 1967(1), and now vested in it(2), makes the following Order:

Enwi, cychwyn a dehongli

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) 2005.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru a daw i rym ar 29 Mehefin 2005.

Title, commencement and application

1.-(1) The title of this Order is the Scallop Fishing (Wales) Order 2005.

(2) This Order applies in relation to Wales and comes into force on 29 June 2005.

(1) 1967 p.84. Amnewidiwyd adran 1 gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p.29), adran 19(1) a Deddf Llongau Masnachol 1995 (p.21), Atodlen 13, paragraff 38(a) a Gorchymyn Deddf yr Alban 1998 (Addasiadau Canlyniadol) (Rhif 2) 1999 (O.S. 1999/1820), Atodlen 2, paragraff 43(1), (2) a (3). Diwygiwyd adran 3 gan Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976 (p.86), Atodlen 2, paragraff 16(1), Deddf Pysgota Gyda'r Lan (yr Alban) 1984 (p.26), Atodlen 1 ac O.S. 1999/1820, Atodlen 2, paragraff 43(1), (2) a (4). Amnewidiwyd adran 15(3) gan Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 (p.77), Atodlen 1, paragraff 38(3) ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976 (p.86), Atodlen 2, paragraff 16(1) ac O.S. 1999/1820, Atodlen 2, paragraff 43(2)(b). *Gweler* adran 22(2)(a) i gael y diffiniadau o "the Ministers" at ddibenion adran 3 a 15(3); diwygiwyd adran 22(2) gan Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p.29), adrannau 19(2)(d) a 45(b) a (c) a chan O.S. 1999/1820, Atodlen 2, paragraff 43(12).

(2) Yn rhinwedd erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) trosglwyddwyd y swyddogaethau a oedd yn arferadwy o dan adrannau 1, 3, 5, 15(3) a 20 o Ddeddf 1967 i'r Cynulliad Cenedlaethol i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru (sydd, yn ôl y diffiniad yn adran 155(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38), yn cynnwys "y môr yn gyfagos â Chymru ac allan i'r môr hyd at ffin y môr tiriogaethol").

(1) 1967 c.84. Section 1 was substituted by the Fisheries Act 1981 (c.29), section 19(1) and the Merchant Shipping Act 1995 (c.21), Schedule 13, paragraph 38(a) and the Scotland Act 1998 (Consequential Modifications) (No. 2) Order 1999 (S.I. 1999/1820), Schedule 2, paragraph 43(1), (2) and (3). Section 3 was amended by the Fishery Limits Act 1976 (c.86), Schedule 2, paragraph 16(1), the Inshore Fishing (Scotland) Act 1984 (c.26), Schedule 1 and S.I. 1999/1820, Schedule 2, paragraph 43(1), (2) and (4). Section 15(3) was substituted by the Sea Fisheries Act 1968 (c.77), Schedule 1, paragraph 38(3) and amended by the Fishery Limits Act 1976 (c.86), Schedule 2, paragraph 16(1) and S.I. 1999/1820, Schedule 2, paragraph 43(2)(b). *See* section 22(2)(a) for definitions of "the Ministers" for the purposes of sections 3 and 15(3); section 22(2) was amended by the Fisheries Act 1981 (c.29), sections 19(2)(d) and 45(b) and (c) and by S.I. 1999/1820, Schedule 2, paragraph 43(12).

(2) By virtue of article 2(a) of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) the functions exercisable under sections 1, 3, 5, 15(3) and 20 of the 1967 Act were transferred to the National Assembly in so far as exercisable in relation to Wales (defined in section 155(1) of the Government of Wales Act 1998 (c.38) as including "the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea").

(3) Yn y Gorchymyn hwn mae gan "Cymru" yr un ystyr ag sydd iddo yn adran 155(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1), ac mae "dyfroedd Cymru" yn golygu yr ardaloedd morwrol sydd o fewn Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn -

ystyr "bar tynnu" ("*tow bar*") yw unrhyw ddyfais neu offeryn y gellir ei ddefnyddio ar gyfer gosod neu ddodi llusgrwyd cregyn bylchog yn sownd i gwch er mwyn galluogi i'r fath lusgrwyd gael ei thynnu gan y cwch.

ystyr "cregyn bylchog" ("*scallop*") yw'r rhywogaeth *Pecten maximus*;

ystyr "cwch pysgota Prydeinig" ("*British fishing boat*") yw cwch pysgota sydd naill ai wedi'i gofrestru yn y Deyrnas Unedig o dan Ran II o Ddeddf Llongau Masnachol 1995(2) neu sydd dan berchenogaeth lwyr personau sy'n gymwys i berchenogi llongau Prydeinig at ddibenion y rhan honno o'r Ddeddf honno;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967;

ystyr "gorchymyn cyfatebol" ("*equivalent order*") yw unrhyw orchymyn arall a wneir o dan adrannau 1, 3, 5 neu 15 o'r Ddeddf, ac sy'n creu gwaharddiadau tebyg i unrhyw rai o'r rheini sydd yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 o'r Gorchymyn hwn ac sy'n rychwantu unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig neu sy'n gymwys i unrhyw ran;

ystyr "gwaelodlinau" ("*baselines*") yw'r ystyr a roddir i "baselines" yn Neddf Môr Tiriogaethol 1987(3);

ystyr "llusgrwyd cregyn bylchog" ("*scallop dredge*") yw unrhyw gyfarpar ac iddo ffrâm anhyblyg yn enau, a lusgir drwy'r dŵr ac a gaiff ei weithgynhyrchu, ei addasu, a'i ddefnyddio neu y bwriedir ei ddefnyddio at bwrpas pysgota am gregyn bylchog.

Cyfngu ar y nifer o lusgrwydi cregyn bylchog

3.-(1) Ni chaiff unrhyw gwch pysgota Prydeinig, ar unrhyw adeg, dynnu mwy na 4 llusgrwyd cregyn bylchog ar y naill ochr a'r llall o'r cwch mewn unrhyw ran o ddyfroedd Cymru sy'n gorwedd o fewn 3 milltir fôr o'r lan, ac fe fesurir y pellter yma o'r gwaelodlinau.

(1) 1998 p.38.

(2) 1995 p.21.

(3) 1987 p.49

(3) In this Order "Wales" has the same meaning as in section 155(1) of the Government of Wales Act 1998(1) and "Welsh waters" means those sea areas within Wales.

Interpretation

2. In this Order -

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Sea Fish (Conservation) Act 1967;

"baselines" ("*gwaelodlinau*") has the same meaning as in the Territorial Sea Act 1987(2);

"British fishing boat" ("*cwch pysgota Prydeinig*") means a fishing boat which is either registered in the United Kingdom under Part II of the Merchant Shipping Act 1995(3) or is owned wholly by persons qualified to own British ships for the purposes of that part of that Act;

"equivalent order" ("*gorchymyn cyfatebol*") means any other order made under sections 1, 3, 5 or 15 of the Act, creating prohibitions similar to any of those in articles 3, 4, 5, 6 and 7 of this Order and extending or applying to any part of the United Kingdom;

"scallop" ("*cregyn bylchog*") means the species *Pecten maximus*;

"scallop dredge" ("*llusgrwyd cregyn bylchog*") means any appliance with a rigid framed mouth which is towed through the water and is manufactured, adapted, used or intended for use for the purpose of fishing for scallops;

"tow bar" ("*bar tynnu*") means any device or appliance which is capable of being used for the purpose of fixing or attaching a scallop dredge to a vessel for the purpose of enabling such a dredge to be towed by the vessel.

Restriction on number of scallop dredges

3.-(1) No British fishing boat is permitted, at any time, to tow more than 4 scallop dredges on each side of the boat in any part of Welsh waters which lie within 3 nautical miles of the shore, such distance being measured from baselines.

(1) 1998 c.38.

(2) 1987 c.49.

(3) 1995 c.21.

(2) Ni chaiff unrhyw gwch pysgota Prydeinig, ar unrhyw adeg, dynnu mwy nag 8 llusgrwyd cregyn bylchog y naill ochr a'r llall o'r cwch mewn unrhyw ran o ddyfroedd Cymru sy'n gorwedd mwy na 3 milltir fôr o'r lan, ac fe fesurir y pellter yma o'r gwaelodlinau.

Cyfngiad ar faint barau tynnu

4. (1) Ni chaiff unrhyw gwch pysgota Prydeinig ar unrhyw adeg, mewn unrhyw ran o ddyfroedd Cymru sydd yn gorwedd o fewn 3 milltir fôr o'r lan, (y pellter yma i gael ei fesur o'r gwaelodlinau), gario neu ddefnyddio bar tynnu oni bai fod y bar tynnu yn cydymffurfio ag anghenion paragraff (2);

(2) Yr anghenion y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw'r rhain;

- (a) ni chaiff bar tynnu fod yn fwy na 3.8 metr o hyd, a
- (b) ble mae bar tynnu yn 3.8 metr neu lai o hyd, ni ddylsai fod wedi ei wneuthur yn y fath fodd fel y gall gael ei osod i fwy na 4 llusgrwyd cregyn bylchog ar yr un pryd.

(3) Ni chaiff unrhyw gwch pysgota Prydeinig ar unrhyw adeg, yn unrhyw ddarn o ddyfroedd Cymru sydd yn gorwedd mwy na 3 milltir fôr o'r lan, (y pellter yma i gael ei fesur o'r gwaelodlinau), gario neu ddefnyddio bar tynnu onibai fod y bar tynnu hwnnw yn cydymffurfio ag anghenion paragraff (4);

(4) Yr anghenion y cyfeirir atynt ym mharagraff (3) yw'r rhain:

- (a) ni chaiff bar tynnu fod yn fwy na 7.6 metr o ran hyd, a
- (b) ble mae'r bar tynnu yn 7.6 metr neu lai o ran hyd, ni ddylsai fod wedi ei wneuthur yn y fath fodd fel y gall gael ei osod i fwy nag 8 llusgrwyd cregyn bylchog ar yr un pryd.

Manyleb llusgrwydi cregyn bylchog

5.-(1) Ni chaiff unrhyw gwch pysgota Prydeinig gario na thynnu llusgrwyd cregyn bylchog o fewn dyfroedd Cymru onibai mewn perthynas â'r fath llusgrwydo -

- (a) bod pob rhan o'i ffrâm yn llai na neu yn gyfartal â 85 centimetr o led;
- (b) ei bod yn cynnwys bar danheddog sbringlwythog sy'n ateb y diben, yn weithredol ac yn symudol;
- (c) nad yw'r llusgrwyd yn cynnwys unrhyw atodiadau ar ei chefn, ar ei thop neu y tu mewn iddi;
- (ch) nad yw'r llusgrwyd yn cynnwys plât plymio neu unrhyw ddyfais debyg arall; a

(2) No British fishing boat is permitted, at any time, to tow more than 8 scallop dredges on each side of the boat in any part of Welsh waters which lie beyond 3 nautical miles from the shore, such distance being measured from baselines.

Restriction on size of tow bars

4.-(1) No British fishing boat is permitted, at any time, in any part of Welsh waters that lie within 3 nautical miles of the shore, (such distances being measured from baselines), to use a tow bar unless that tow bar complies with the requirements of paragraph (2);

(2) The requirements referred to in paragraph (1) are as follows:

- (a) a tow bar must not exceed 3.8 metres in length, and
- (b) where a tow bar is 3.8 metres or less in length, it must not be constructed in such a way as to enable more than 4 scallop dredges to be attached to it at the same time.

(3) No British fishing boat is permitted at any time, in any part of Welsh waters that lie beyond 3 nautical miles from the shore, (such distance being measured from baselines), to use a tow bar unless that tow bar complies with the requirements of paragraph (4);

(4) The requirements referred to in paragraph (3) are as follows:

- (a) a tow bar must not exceed 7.6 metres in length, and
- (b) where a tow bar is 7.6 metres or less in length, it must not be constructed in such a way as to enable more than 8 scallop dredges to be attached to it at the same time.

Specification of scallop dredges

5.-(1) No British fishing boat is permitted to carry or tow a scallop dredge within Welsh waters unless in relation to such a dredge -

- (a) its frame is less than or equal to 85 centimetres in width in any part;
- (b) it includes a functioning, operational and moveable spring loaded tooth bar;
- (c) it does not contain any attachments to the rear, top or inside of the dredge;
- (d) it does not contain a diving plate or any other similar device; and

(d) nad yw cyfanswm pwysau'r llusgrwyd yn cynnwys yr holl ffitiadau heb fod yn fwy na 150 cilogram.

(2) Ni chaiff unrhyw gwch pysgota Prydeinig gario neu dynnu llusgrwyd cregyn bylchog o fewn dyfroedd Cymru -

(a) os yw'r llusgrwyd yn 80 centimetr o led neu fwy -

(i) onid yw'r nifer o resi o fodrwyau bol sy'n hongian o'r bar bol heb fod yn fwy nag 8 ar draws;

(ii) os yw'r dannedd i gyd yn mesur 12 milimetr neu lai, onid yw'r nifer o ddannedd ar y bar danheddog heb fod yn fwy na 9;

(iii) os oes unrhyw un o'r dannedd yn mesur mwy na 12 milimetr, onid yw'r nifer o ddannedd ar y bar danheddog heb fod yn fwy nag 8;

(b) os yw'r llusgrwyd yn llai nag 80 centimetr o led -

(i) onid yw'r nifer o resi o fodrwyau bol sy'n hongian o'r bar bol heb fod yn fwy na 6; a

(ii) onid yw'r nifer o ddannedd ar y bar danheddog heb fod yn fwy na 6;

(c) onid oes ganddo ddim mwy nag 1 rhes o fodrwyau bol yn hongian o'r naill ochr a'r llall o'r llusgrwyd yn unionsyth at y modrwyau sy'n hongian o'r bar bol; ac

(ch) onid yw pob dant ar y bar danheddog heb fod yn fwy na -

(i) 22 milimetr lle y mae'r llusgrwyd yn 80 centimetr o led neu fwy; neu

(ii) 12 milimetr lle y mae'r llusgrwyd yn llai na 80 centimetr o led.

(3) Yn yr erthygl hon -

(a) llinell o fodrwyau unigol sydd wedi'u cysylltu â'i gilydd yw rhes o fodrwyau bol, lle y mae'r fodrwy ar un pen i'r llinell yn hongian naill ai o'r bar bol neu o brif strwythur y llusgrwyd yn unionsyth i'r bar bol;

(b) bar bol yw'r bar sydd wedi'i gysylltu â ffrâm y llusgrwyd sy'n rhedeg yn gyfochrog â'r bar danheddog ac y mae'r modrwyau bol yn hongian wrtho;

(c) bar danheddog yw'r bar ac arno ddannedd sydd â'u pennau'n pwyntio i lawr ac y bwriedir iddynt gyffwrdd â gwely'r môr pan yw'r llusgrwyd yn weithredol;

(ch) maint dant yw mwyafswm ei led wedi'i fesur yng nghyfeiriad llinell y bar danheddog.

(e) the total weight of the dredge including all fittings does not exceed 150 kilogrammes.

(2) No British fishing boat is permitted to carry or tow a scallop dredge within Welsh waters unless -

(a) where the dredge measures 80 centimetres or more in breadth -

(i) the number of rows of belly rings hanging from the belly bar does not exceed 8 across;

(ii) where all of the teeth measure 12 millimetres or less, the number of teeth on the tooth bar does not exceed 9;

(iii) where any of the teeth measure more than 12 millimetres, the number of teeth on the tooth bar does not exceed 8;

(b) where the dredge measures less than 80 centimetres in breadth -

(i) the number of rows of belly rings hanging from the belly bar does not exceed 6; and

(ii) the number of teeth on the tooth bar does not exceed 6;

(c) it has no more than 1 row of belly rings hanging from either side of the dredge perpendicular to the rings which hang from the belly bar; and

(d) each tooth on the tooth bar measures no more than -

(i) 22 millimetres where the dredge measures 80 centimetres or more in breadth; or

(ii) 12 millimetres where the dredge measures less than 80 centimetres in breadth.

(3) In this article -

(a) a row of belly rings is a line of single interconnecting rings, where the ring at one end of the line hangs either from the belly bar or from the main structure of the dredge perpendicular to the belly bar;

(b) a belly bar is the bar attached to the frame of the dredge which runs parallel to the tooth bar and from which the belly rings hang;

(c) a tooth bar is the bar to which are attached teeth, the ends of which point downwards and which are intended to be in contact with the sea bed when the dredge is in operation;

(d) the size of a tooth is its maximum width measured in the direction of the line of the tooth bar.

(4) Nid yw modrwyau bol a'r teclynnau sy'n eu cysylltu â'i gilydd ac â'r ffrâm i'w hystyried fel atodiadau at ddibenion paragraff (1)(c).

Cyfyngiadau pysgota

6.-(1) At ddibenion adran 1(3) o'r Ddeddf, isafswm maint cragen fylchog y gellir ei chario gan gwch pysgota Prydeinig yn nyfroedd Cymru yw 110mm.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), ni chaiff unrhyw berson bysgota, cymryd neu ladd cregyn bylchog yn Nyfroedd Cymru yn ystod y cyfnod 1 Mehefin i 31 Hydref gan gynnwys y dyddiadau hynny, ym mhob blwyddyn, drwy unrhyw gyfrwng gan gynnwys plymio.

(3) Mewn perthynas â'r flwyddyn galendr 2005, mae'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff 2 i gychwyn ar 30 Mehefin.

Mesur cregyn bylchog

7. At ddibenion erthygl 6, mae maint cragen fylchog i'w fesur yn unol â pharagraff 6 o Atodiad XIII i Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 850/98 ar gyfer cadw adnoddau pysgodfeydd trwy gyfrwng camau technegol er mwyn diogelu organebau morol bychan(1), a hynny fel y'i newidiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 602/2004 dyddiedig 22 Mawrth 2004(2).

Pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydeinig

8.-(1) At ddibenion gorfodi'r Gorchymyn hwn neu unrhyw orchymyn cyfatebol, caiff swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig arfer y pwerau a roddir gan yr erthygl hon mewn perthynas ag unrhyw gwch pysgota Prydeinig yn nyfroedd Cymru.

(2) Caiff y swyddog fynd ar fwrdd y cwch, gyda neu heb bersonau a neilltuwyd i gynorthwyo'r swyddog hwnnw wrth ei ddyletswyddau ac, at y diben hwnnw, caiff fynnu bod y cwch yn stopio a chaiff wneud unrhyw beth arall a fydd yn hwyluso mynd ar fwrdd y cwch.

(3) Caiff y swyddog fynnu bod y meist'r a phersonau eraill ar fwrdd y cwch yn bresennol a chaiff wneud unrhyw archwiliad ac ymholiad sy'n ymddangos i'r swyddog ei bod yn angenrheidiol at y diben o orfodi'r Gorchymyn hwn neu unrhyw orchymyn cyfatebol fel y'i darllenir gyda'r Ddeddf ac, yn arbennig -

- (i) caiff archwilio unrhyw bysgod ar y cwch ac offer y cwch, gan gynnwys yr offer pysgota, a'i gwneud yn ofynnol bod personau sydd ar fwrdd y cwch yn gwneud unrhyw beth sy'n ymddangos yn angenrheidiol ar gyfer hwyluso'r archwiliad; ac

(4) Belly rings and the fastenings which attach them to each other and to the frame are not to be regarded as attachments for the purpose of paragraph (1)(c).

Fishing Restrictions

6.-(1) For the purposes of section 1(3) of the Act, the minimum size of scallop that may be carried by a British fishing boat in Welsh waters is 110mm.

(2) Subject to paragraph (3) no person is to fish for, take or kill scallops in Welsh waters during the period 1 June to 31 October inclusive, in each year, by any means, including diving.

(3) In respect of calendar year 2005 the period referred to in paragraph 2 is to commence on 30 June.

Measurement of scallops

7. For the purposes of article 6, the size of a scallop is to be measured in accordance with paragraph 6 of Annex XIII to Council Regulation (EC) No. 850/98 for the conservation of fishery resources through technical measures for the protection of juvenile marine organisms(1) as last amended by Council Regulation (EC) No. 602/2004 of 22 March 2004(2).

Powers of British sea-fishery officers

8.-(1) For the purposes of enforcing this Order or any equivalent order, a British sea fishery officer may exercise the powers conferred by this article in relation to any British fishing boat in Welsh waters.

(2) The officer may go on board the boat, with or without persons assigned to assist in that officer's duties, and for that purpose may require the boat to stop and do anything else which will facilitate the boarding of the boat.

(3) The officer may require the attendance of the master and other persons on board the boat and may make any examination and inquiry which appears to the officer to be necessary for the purpose of enforcing this Order or any equivalent order as read with the Act and, in particular -

- (i) may examine any fish on the boat and the equipment of the boat, including the fishing gear, and require persons on board the boat to do anything which appears to be necessary for facilitating the examination; and

(1) OJ Rhif L125, 27.4.1998, t.1.

(2) OJ Rhif L097, 1.4.2004, t.30.

(1) OJ No. L125, 27.4.1998, p.1.

(2) OJ No. L097, 1.4.2004, p.30.

- (ii) caiff fynnu bod unrhyw berson sydd ar fwrdd y cwch yn dangos unrhyw ddogfen sydd yng ngwarchodaeth neu ym meddiant y person hwnnw, ac sy'n ymwneud â'r cwch, â'i weithrediadau pysgota neu â gweithrediadau eraill sy'n ategol i hynny, neu â'r personau sydd ar fwrdd y cwch a chaiff gymryd copiâu o unrhyw ddogfen o'r fath;
- (iii) at ddibenion canfod a yw meist, perchennog neu siartwr y cwch wedi cyflawni tramgwydd o dan y Ddeddf fel y'i darllenir gyda'r Gorchymyn hwn, caiff archwilio'r cwch am unrhyw ddogfen o'r fath a mynnu bod unrhyw berson ar fwrdd y cwch yn gwneud unrhyw beth sydd ei angen, yn nhyb y swyddog, i hwyluso'r archwiliad;
- (iv) os oes gan y swyddog reswm dros amau bod tramgwydd o'r fath wedi ei gyflawni mewn cysylltiad â'r cwch, yn ddarostyngedig i baragraff (4), caiff gipio a chadw unrhyw ddogfen o'r fath, a gyflwynir neu a ddarganfyddir ar y cwch, at ddibenion galluogi'r ddogfen i gael ei defnyddio'n dystiolaeth mewn achos sy'n ymwneud â'r tramgwydd;

(4) Nid oes dim ym mharagraff (3)(iv) yn caniatáu i unrhyw ddogfen, y mae'r gyfraith yn mynnu ei bod yn cael ei chario ar fwrdd y cwch, gael ei chipio a'i chadw ac eithrio tra bydd y cwch yn cael ei gadw mewn porthladd.

(5) Pan fydd yn ymddangos i swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig fod unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn wedi'i thorri ar unrhyw adeg, caiff y swyddog -

- (a) mynnu bod meist y cwch yn mynd â'r cwch a'i griw i'r porthladd, sef y porthladd cyfleus agosaf yn ei dyb ef; ac
- (b) cadw'r cwch yn y porthladd, neu fynnu bod y meist yn ei gadw yno;

a phan fydd swyddog o'r fath yn cadw cwch neu yn ei gwneud yn ofynnol bod y cwch yn cael ei gadw, rhaid i'r swyddog gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r meist yn datgan y caiff y cwch ei gadw neu ei bod yn ofynnol ei gadw hyd oni thynnir yr hysbysiad yn ôl drwy gyflwyno i'r meist hysbysiad ysgrifenedig arall a lofnodwyd gan swyddog pysgodfeydd môr Prydeinig.

- (ii) may require any person on board the boat to produce any document which is in that person's custody or possession relating to the boat, to its fishing operations or other operations ancillary thereto or to the persons on board and may take copies of any such document;
- (iii) for the purpose of ascertaining whether the master, owner or charterer of the boat has committed an offence under the Act as read with this Order, may search the boat for any such document and may require any person on board the boat to do anything which appears to the officer be necessary for facilitating the search;
- (iv) if the boat is one in relation to which the officer has reason to suspect that such an offence has been committed, may subject to paragraph (4) seize and detain any such document produced or found on board for the purpose of enabling the document to be used as evidence in proceedings for the offence;

(4) Nothing in paragraph (3)(iv) permits any document required by law to be carried on board the boat to be seized and detained except while the boat is detained in a port.

(5) A British sea-fishery officer to whom it appears that a contravention of any provision of this Order has at any time taken place may -

- (a) require the master of the boat to take the boat and its crew to the port which appears to be the nearest convenient port; and
- (b) detain or require the master to detain the boat in the port;

and where such an officer detains or requires the detention of a boat the officer must serve on the master a notice in writing stating that the boat will be or is required to be detained until the notice is withdrawn by the service on the master of a further notice in writing signed by a British sea-fishery officer.

Dirymu

9. Caiff Gorchymyn Cregyn Bylchog Rhy Fach Eu Maint (yr Arfordir Gorllewinol) 1984(1), Gorchymyn Cregyn Bylchog (Môr Iwerddon) (Gwahardd Pysgota) 1984(2), a Gorchymyn Cregyn Bylchog (Môr Iwerddon) (Gwahardd Pysgota) (Amrywio) 1986(3) eu dirymu cyn belled â'u bod yn gymwys o ran Cymru.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(4)

28 Mehefin 2005

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Revocation

9. The Undersized Scallops (West Coast) Order 1984(1), the Scallop (Irish Sea) (Prohibition of Fishing) Order 1984(2), and the Scallop (Irish Sea) (Prohibition of Fishing) (Variation) Order 1986(3) are revoked insofar as they apply in relation to Wales.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(4).

28 June 2005

The Presiding Officer of the National Assembly

(1) O.S. 1984/1522.

(2) 1984 p.1523.

(3) 1986 p.988

(4) 1998 p.38.

(1) S.I. 1984/1522

(2) S.I.1984/1523

(3) S.I.1986/988

(4) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

2005 Rhif 1717 (Cy.132)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

CADWRAETH PYSGOD MÔR

Gorchymyn Pysgota am Gregyn
Bylchog (Cymru) 2005

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 No. 1717 (W.132)

**SEA FISHERIES,
WALES**

CONSERVATION OF SEA FISH

The Scallop Fishing (Wales) Order
2005

© Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£3.00


W100/7/05

ON

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091158-X



9 780110 911588